**Eluned Morgan AS/MS**
**Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol**
**Minister for Health and Social Services**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref P-06-1206
Ein cyf/Our ref EM/12451/21

Jack Sargeant AS
Cadeirydd – y Pwyllgor Deisebau
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1SN

12 Hydref 2021

Annwyl Jack,

Diolch ichi am eich llythyr dyddiedig 10 Medi am Ddeiseb P-06-1206 ynghylch adolygu safonau mynediad i bractis cyffredinol yng Nghymru yng ngoleuni'r pandemig.

Mae'r pandemig COVID-19 wedi rhoi pwysau anferth ar y system iechyd a gofal cymdeithasol gyfan, ac rwy'n hynod ddiolchgar i'r proffesiwn a staff ein holl bractisau am ymateb mewn ffordd mor hyblyg ac arloesol sydd wedi caniatáu iddynt barhau i ddarparu gofal i'r rhai sydd fwyaf agored i niwed yn ein cymdeithas.

Cafodd llythyr ei anfon at holl feddygon teulu Cymru ar 2 Mawrth 2021 yn cydnabod nad oedd y flwyddyn a oedd newydd fynd heibio wedi bod yn blatfform cywir ar gyfer asesu sut y mae'r safonau mynediad presennol wedi gwella mynediad. Cytunwyd i ymestyn y cyllid am flwyddyn arall mewn perthynas â'r safonau i 31 Mawrth 2022, er mwyn creu cyfle i ymgorffori'r mesurau, a gwneud asesiad cywir o ran pa mor effeithiol y bu'r safonau wrth wella mynediad i bawb.

Ar hyn o bryd, mae 76% o'r holl bractisau meddygon teulu yng Nghymru wedi cyflawni pob un o'r safonau mynediad i wasanaethau meddygol cyffredinol yn ystod oriau agor meddygfeydd, o gymharu â 65% o bractisau'r llynedd. Mae hyn yn adlewyrchu llwyddiant mawr y gwaith i wella mynediad at ofal sylfaenol i gymunedau ledled Cymru, sef gwaith sy'n parhau i fynd rhagddo.

Mae'r Safonau Mynediad, gan gynnwys unrhyw ddiwygiadau iddynt, yn cael eu mesur a'u hariannu fel rhan o'r contract gwasanaethau meddygol cyffredinol, ac felly maent yn rhan o'r negodiadau blynyddol rhwng Llywodraeth Cymru, Pwyllgor Meddygon Teulu Cymru, a GIG Cymru. Dechreuodd y negodiadau contract teirochrog ym mis Gorffennaf, a pharhau y mae'r negodiadau hynny, a byddaf yn gwneud datganiad ar ôl iddynt ddod i ben.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Eluned.Morgan@llyw.cymru
Correspondence.Eluned.Morgan@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Yn gywir,

**Eluned Morgan AS/MS**
Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
Minister for Health and Social Services